

No.

PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 21 Rhagfyr, 2022.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd N.C. Thomas (Cadeirydd); Cynghorydd S.D. Perkes (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr Gilligan, N.P. Hodges, Dr. I.J. Johnson, H.M. Payne, I.A.N. Perry, C. Stallard, E. Williams a M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett, C.P. Franks, W.A. Hennessy and R. Sivagnanam.

Enw'r Siaradwr	Rhif Cais Cynllunio a Lleoliad	Rheswm dros Siarad
Mr. G. Roberts	2022/00077/FUL - Eglwys Fethodistaidd Albert Road	Gwrthwynebwyd y cais neu eu cynrychiolydd.
Mrs. R. Wheeler	2022/00077/FUL - Eglwys Fethodistaidd Albert Road	Gwrthwynebwyd y cais neu eu cynrychiolydd.
Y Cynghorydd Ruba Sivagnanam	2022/00077/FUL - Eglwys Fethodistaidd Albert Road	Aelod Etholedig BM ac Aelod Ward Lleol
Mr. J. Hurley	2022/00077/FUL - Eglwys Fethodistaidd Albert Road	Yr Ymgeisydd neu eu Cynrychiolydd.
Mrs. C. Lewis	2022/00918/FUL - 96 Lavernock Road, Penarth	Gwrthwynebwyd y cais neu eu cynrychiolydd.

579 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

580 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd P. Drake

No.

581 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd, 2022 fel cofnod cywir.

582 DATGANIADAU BUDDIANT –

Y Cynghorydd I.A.N. Perry	2020/01588/FUL - Hen Orsaf yr Heddlu, Cowbridge Road, Sain Nicolas	Diddordeb Personol - Y Cynghorydd Perry oedd yr aelod ward lleol ac roedd wedi ystyried y cais yn y gorffennol ond roedd yn ystyried y cais yn ystod y cyfarfod gyda llygaid ffres. Arhosodd y Cynghorydd Perry yn y cyfarfod pan ystyriwyd yr eitem.
Y Cynghorydd A.M. Ernest	2022/00918/FUL - 96 Lavernock Road, Penarth	Buddiant Rhagfarnus - Roedd y Cynghorydd Ernest wedi penderfynu ar y cais gynt fel aelod ward lleol ac felly gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem.

583 ARCHWILIADAU SAFLE (PW) -

PNDERFYNWYD - NODI presenoldeb y Cynghorwyr canlynol yn yr ymweliadau safle a gynhaliwyd ar 19 Hydref, 2022:

Derbyniwyd ymddiheuriadau am Ymweliadau Safle (A a B) gan y Cynghorwyr R.M. Birch, G. Bruce, C.A. Cave, C.E.A. Champion, C.M. Cowpe, P. Drake, W. Gilligan, N.P. Hodges, Dr. I.J. Johnson, H.M. Payne, S. Perkes (Is-gadeirydd), E. Williams ac M.R. Wilson.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am Ymweliad Safle B gan y Cynghorwyr G. Bruce ac A.M. Ernest

(a) Tir yn Model Farm, Y Rhws.	Y Cynghorydd N.C. Thomas (Cadeirydd); Cynghorwyr G.Bruce, C.E.A. Champion, A.M. Ernest, I.A.N. Perry a C. Stallard. Hefyd yn bresennol – y Cynghorwyr S. Campbell a W. Hennessy.
(b) Tir i'r Gogledd o Faes y Ffynnon, oddi ar yr A48, Tresimwn	Y Cynghorydd N.C. Thomas (Cadeirydd); Cynghorwyr C.E.A. Champion, I.A.N. Perry a C. Stallard.

584 CEISIADAU RHEOLI ADEILADAU A MATERION RHEOLI ADEILADAU ERAILL A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH ADFYWIO A CHYNLLUNIO DAN BWERAU DIRPRWYEDIG (PAC) –

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi'r ceisiadau rheoliadau adeiladau a basiwyd, fel y'u rhestrwyd yn Adran A yr adroddiad.
- (2) Y dylid nodi'r ceisiadau adeiladu a wrthodwyd, fel y'u rhestrir yn Adran B yr adroddiad.
- (3) Nodi'r broses o gyflwyno Hysbysiadau dan y Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2000, fel y'i nodir yn Adran C o'r adroddiad.
- (4) BOD y broses o gyflwyno Hysbysiadau dan Adran 32 Deddf Adeiladu 1984 fel y'i nodir yn Adran (D) o'r adroddiad, yn cael ei nodi.

585 CEISIADAU CYNLLUNIO A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH ADFYWIO A CHYNLLUNIO DAN BWERAU DIRPRWYEDIG (PAC) –

PENDERFYNWYD – BOD y ceisiadau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ar dudalennau 15 trwy 31, o dan y pwerau wedi'u nodi uchod.

586 APELIADAU (PAC) –

PENDERFYNWYD

- (1) NODI'r apeliadau a dderbyniwyd ar ôl i'r Cyngor wrthod rhoi caniatâd cynllunio, fel y'u nodir yn Adran A o'r adroddiad.
- (2) NODI nad oedd unrhyw Apeliadau Gorfodi wedi'u derbyn ar adeg cynnal y cyfarfod.
- (3) BOD y Penderfyniadau ar Apeliadau Cynllunio fel y manylir yn Adran C o'r adroddiad, yn cael eu nodi.
- (4) Nodi nad oedd unrhyw Benderfyniadau Apeliadau Gorfodi wedi'u derbyn ar adeg cynnal y cyfarfod.
- (5) BOD yr ystadegau'n ymwneud ag apeliadau am y cyfnod Ebrill 2022 - Mawrth 2023, fel y manylir yn Adran E yr adroddiad, yn cael eu nodi.

587 COED (PAC) –

(i) Rhestr Ddirprwyedig -

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r ceisiadau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ar dudalennau 37 a 39, fel y penderfynir gan y Pennaeth Adfywio a Chynllunio o dan bwerau dirprwyedig.

588 CEISIAD CYNLLUNIO (PAC) –

PENDERFYNWYD – Yn unol â'r pwerau a ddirprwywyd i'r Pwyllgor, y penderfynir ar y ceisiadau a ganlyn fel y nodir a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol eraill.

2021/00571/FUL Derbyniwyd ar 26 Mai 2022

(p40)

YMGEISYDD: DS Holdings (Penarth) Ltd d/o asiant,

ASIAANT: Gwen Thomas Uned 9, Oak Tree Court, Parc Busnes Porth Caerdydd, Caerdydd, CF23 8RS

Hen Eglwys Albert Road, Penarth.

Newid defnydd i ofod swyddfa cymysg, mannau at ddefnydd cymunedol a defnyddiau ffordd o fyw (defnyddiau B1a a D1) a newidiadau allanol ac adnewyddu/amnewid ffenestri.

CYMERADWYWYD – Yn amodol ar yr amodau a gynhwysir yn yr adroddiad, a diwygiad i Amod 3 fel a ganlyn:

Ni fydd y defnydd a gymeradwywyd yn y llawr isaf yn cael ei weithredu rhwng 22:00 a 07:30 dydd Llun i ddydd Sul.

Ni fydd y defnydd a gymeradwywyd yn y llawr daear yn cael ei weithredu rhwng 22:00 a 07:30 dydd Llun i ddydd Sul.

Bydd unrhyw oleuadau mewnol yn cael eu diffodd y tu allan i'r oriau agor penodedig.

Rheswm:

Er mwyn sicrhau nad yw sŵn a golau mewn oriau anghymdeithasol yn niwsans i drigolion cyfagos ac i sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau Polisiâu MD2 (Dylunio Datblygiadau Newydd) ac MD7 (Diogelu'r Amgylchedd) y Cynllun Datblygu Lleol.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

2020/01588/FUL Derbyniwyd ar 15 Medi 2022.

(p71)

YMGEISYDD: N Wilson, Gorsaf yr Heddlu, Cowbridge Road, Sain Nicolas, CF5 6SH.

ASIANT: Mr Sean Taylor ST Planning, 36, Clos Nant Mwlau, Pontprenhau, Caerdydd, CF23 8NA.

Gorsaf yr Heddlu, Cowbridge Road, Sain Nicolas.

Trosi adeilad yn 3 Fflat.

PENDERFYNWYD – sicrhau'r canlynol, ar yr amod bod yr ymgeisydd yn dod i gytundeb Adran 106:

- Darparu cyfraniad oddi ar y safle o £82,893.60 tuag at dai fforddiadwy; a
- Chymal ar gyfer talu ffi weinyddu o £1657.87 (2% o'r ffi ymgeisio), i dalu costau'r Cyngor i drafod, monitro a gweithredu telerau'r cytundeb Adran 106 angenrheidiol.

CYMERADWYWYD – Yn amodol ar yr amodau a gynhwysir yn yr adroddiad.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

2022/00232/FUL Derbyniwyd ar 27 Hydref 2022.

(p98)

YMGEISYDD: Mr Ali Alzahid 36, Pill Street, Cogan, Penarth, CF64 2JS.

ASIANT: Mr Somas Kandiah 58B, Clearwater Way, Lakeside, Caerdydd, CF23 6DJ.

36, Pill Street, Cogan, Penarth.

Estyniad cefn un llawr, estyniad cefn llawr cyntaf, trosi llofft gan gynnwys dormer cefn gyda newid i garej cefn i droi'r eiddo'n ddau fflat hunangynhwysol 2 ystafell wely gyda newidiadau allanol (Diwygiwyd dyluniad to i'r hyn a gymeradwywyd yn 2020/00374/FUL).

GWRTHODWYD AC AWDURDODQWYD CAMAU GORFODI

Oherwydd maint, uchder a dyfnder yr estyniadau, a'u safle'n uniongyrchol ger gofod gardd a ffenestri'r annedd gyfagos, byddai'r datblygiad arfaethedig yn amgáu ac yn dominyddu'r olygfa o'r eiddo cyfagos yn annerbyniol a byddai'n niweidiol o amlwg. Mae'r datblygiad felly'n groes i bolisiâu MD2 a MD5 Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Bro Morgannwg a'r cyngor yng Nghantllawiau Cynllunio Statudol y Cyngor ar Ddatblygiadau Preswyl a Deiliaid Tai.

No.

Camau gorfodi awdurdodedig yn cynnwys naill ai:

Dymchwel yr estyniadau anawdurdodedig

NEU

Diwygio'r estyniadau fel y'u hadeiladwyd fel eu bod yn cyd-fynd â'r datblygiad a gymeradwywyd gan 2020/00374/FUL.

2022/00440/FUL Derbyniwyd ar 25 Awst 2022

(t115)

YMGEISYDD: Glen Thomas Architecture 112 Kimberley Road, Penylan, Caerdydd, CF23 5DN.

ASIANT: Mr Richard Wood 112 Kimberley Road, Pen-y-lan, Caerdydd, CF23 5DN.

96, Lavernock Road, Penarth

Addasiad llofft â dormer Estyniad cefn un llawr â tho fflat gydag estyniad ar y llawr cyntaf. Ailwampio'r tu mewn yn gyffredinol. Moderneiddio'r cyntedd blaen. Newid y ffenestri blaen.

Gadawodd y Cyngorydd Ernest y cyfarfod cyn ystyried yr eitem hon.

GOHIRIWYD i swyddogion adrodd yn ôl gyda rhesymau dros wrthod yn ymwneud ag effaith ormesol.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

589 MATER YR OEDD Y CADEIRYDD WEDI PENDERFYNU EI FOD YN FRYS –

PENDERFYNWYD – BOD y mater canlynol, yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu ei fod yn fater brys am y rheswm a roddwyd o dan y pennawd yn y cofnodion, yn cael ei ystyried.

No.

590 ADRODDIAD EFFAITH LEOL DAC – FFERM SOLAR ARFAETHEDIG
GYDA CHYFLEUSTER BATRIS STORIO AC ISADEILEDD ATEGOL
CYSYLLTIEDIG (FFERM SOLAR PARC DYFFRYN), TIR AR FFERM VIANSHILL,
THE DOWNS, SAIN NICLAS (HSD) -

Brys oherwydd yr angen i gyfeirio at y Pwyllgor Cynllunio er gwybodaeth, i hysbysu Aelodau o'r materion Cynllunio ac i sicrhau y gallai Aelodau gyflwyno unrhyw sylwadau pellach mewn modd amserol fel rhan o'r broses Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC)

PENDERFYNWYD

(1) DYLID nodi'r adroddiad fel y'i cyflwynwyd.

(2) BOD unrhyw sylwadau pellach ar y Cais yn cael eu hanfon ymlaen at Reolwr Gweithredol Adeiladu a Rheoli Cynllunio i'w hystyried gan Gadeirydd y Pwyllgor.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Sicrhau y bydd safbwyntiau'r Pwyllgor ar y cyd yn cael eu trosglwyddo i Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) yn ystod y cyfnod ymgynghori.